

## Ardoll Seilwaith Cymunedol - Nodyn Canllaw 3

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Tudalen 1

# ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

## RHONDDA CYNON TAF

### Nodyn Canllaw 3: Rhyddhad Datblygu Elusennol

#### Cefndir

Mae rhai mathau o ddatblygiadau elusennol wedi'u heithrio o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Bydd y nodyn canllaw yma'n nodi'r mathau yma o ddatblygiadau, ac yn rhoi gwybodaeth i chi am y broses o hawlio rhyddhad elusennol. Yn ogystal â hynny, bydd yn rhoi enghreifftiau o sut caiff y rhyddhad ei gyfrifo.

#### Ystyr Datblygiad Elusennol sy'n gymwys am ryddhad gorfodol

Mae Rheoliad 43 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010) yn nodi'r amodau mae rhaid eu bodloni er mwyn i ddatblygiad elusennol fod yn gymwys am ryddhad gorfodol. Dyma nhw:

1. Rhaid bod y perchennog yn sefydliad elusennol (e.e. elusen, neu ymddiriedolaeth y mae pob un o'i buddiolwyr yn elusen, neu'n gynllun ymddiriedolaeth uned y mae pob un o'r deiliaid uned yn elusen), a
2. Rhaid bod y datblygiad y codir tâl yn ei gylch yn cael ei ddefnyddio yn bennaf neu dim ond at ddibenion elusennol a rhaid bod sefydliad elusennol yn ei feddiannu neu'n ei reoli. Dydy rhyddhad o dan Reoliad 43 ddim yn berthnasol:
  1. Os nad yw'r rhan o'r datblygiad sydd wedi'i heithrio yn cael ei meddiannu neu'i rheoli gan sefydliad elusennol, neu
  2. Os yw'r buddiant perthnasol yn cael ei berchen ar y cyd, a dyw un neu ragor o'r perchnogion ddim yn sefydliad elusennol, neu
  3. Byddai rhoi rhyddhad gorfodol gyfystyr â chymorth gwladwriaethol.

#### Cymorth Elusennol Dewisol

Dyw rhyddhad elusennol dewisol ar gyfer gweithgareddau buddsoddi (Rheoliad 44 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010) a rhyddhad elusennol arall (Rheoliad 45 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010) **ddim** ar gael ar hyn o bryd yn Rhondda Cynon Taf.

#### Y broses ar gyfer hawlio rhyddhad elusennol gorfodol

Mae Rheoliad 47 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 yn nodi'r prosesau ar gyfer hawlio rhyddhad elusennol. Os na chaiff y gweithdrefnau'u dilyn yn llym, fydd y datblygiad ddim yn gymwys am ryddhad elusennol a/neu bydd yr hawl i ryddhad elusennol yn dod i ben.

- Rhaid i sefydliad elusennol sy'n hawlio rhyddhad gyflwyno **ffurflen Hawlio Eithriad, neu Ryddhad**, cyn i'r datblygiad y codir tâl yn ei gylch ddechrau.
- Os bydd y datblygiad y codir tâl yn ei gylch yn dechrau cyn i'r Cyngor roi gwybod i'r sefydliad elusennol am ei benderfyniad, bydd y cais am ryddhad yn dod i ben.
- Yn ogystal â hynny, fydd y datblygiad ddim yn gymwys am ryddhad elusennol os nad yw'r Cyngor wedi derbyn **Hysbysiad Dechrau ASC** cyn dechrau'r datblygiad y codir tâl yn ei gylch.

#### Crynodeb

I hawlio rhyddhad elusennol gorfodol, rhaid bod y sefydliad elusennol yn berchen ar y tir ac yn ei ddefnyddio yn bennaf neu dim ond at ddibenion elusennol. Cyn dechrau'r datblygiad y codir tâl amdano, rhaid cyflwyno cais am ryddhad a derbyn penderfyniad y Cyngor, yn ogystal â chyflwyno

**Hysbysiad Dechrau Ardoll Seilwaith Cymunedol** i'r Cyngor.

**Engbreiffiau o sut caiff rhyddhad elusennol gorfodol ei gyfrifo**

**Sefyllfa 1**

***Mae sefydliad elusennol yn cael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl tai â chymorth ag Arwynebedd Mewnol Gros o 1,315m<sup>2</sup> ar safle gwag ym Mharth 3.***

Cyfradd breswyl Ardoll Seilwaith Cymunedol yw £85 y m<sup>2</sup> ym Mharth 3; felly, yr atebolrwydd yw £111,775.

Cyn dechrau'r datblygiad, mae'r Cyngor yn derbyn cais am ryddhad elusennol. Mae'r Cyngor yn rhoi rhyddhad elusennol gorfodol oherwydd bod y profion yn Rheoliad 43 wedi'u bodloni, ac mae'r atebolrwydd yn lleihau i £0.

**Sefyllfa 2**

***Mae sefydliad elusennol yn derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl tai â chymorth ag Arwynebedd Mewnol Gros o 1,315m<sup>2</sup>, ac uned fasnachu A1 (a fydd yn gartref i'r sefydliad elusennol) ag Arwynebedd Mewnol Gros o 75m<sup>2</sup> ar safle gwag.***

Cyfradd breswyl Ardoll Seilwaith Cymunedol yw £85 y m<sup>2</sup>, felly, atebolrwydd datblygiad manwerthu A1 yw £100 y m<sup>2</sup>, felly, cyfanswm yr atebolrwydd yw £119,275 (h.y. atebolrwydd preswyl o £111,775 ac atebolrwydd manwerthu o £7,500).

Cyn dechrau'r datblygiad, mae'r Cyngor yn derbyn cais am ryddhad elusennol. Mae'r Cyngor yn rhoi rhyddhad elusennol gorfodol ar gyfer yr elfen breswyl gan fod y profion yn Rheoliad 43 wedi'u bodloni. Serch hynny, nid yw'n rhoi rhyddhad elusennol ar gyfer yr elfen fanwerthu oherwydd caiff ei hystyried yn weithgaredd buddsoddi, a dydy'r Cyngor ddim yn cynnig rhyddhad elusennol dewisol ar gyfer gweithgaredd o'r fath. Gan hynny, caiff yr atebolrwydd ei ostwng i £7,500 (h.y. yr atebolrwydd preswyl).

**Sefyllfa 3**

***Mae prifysgol yn derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer theatr ddarlithio a labordai gwyddoniaeth newydd ag Arwynebedd Mewnol Gros o 5,000m<sup>2</sup> a llety i fyfyrwyr ag Arwynebedd Mewnol Gros o 3,000m<sup>2</sup>.***

Cyfradd atebolrwydd ASC ar gyfer sefydliadau nad ydyn nhw'n breswyl yw £0 y m<sup>2</sup> a'r gyfradd ar gyfer llety i fyfyrwyr yw £85 y m<sup>2</sup> ym Mharth 3, felly, cyfanswm yr atebolrwydd yw £255,000 (h.y. atebolrwydd sefydliadau nad ydyn nhw'n breswyl o £0 + atebolrwydd llety i fyfyrwyr o £255,000).

Cyn dechrau'r datblygiad, mae'r Cyngor yn derbyn cais am ryddhad elusennol. Mae'r Cyngor yn rhoi rhyddhad gorfodol ar gyfer y theatr ddarlithio a labordai gwyddoniaeth gan fod y profion yn Rheoliad 43 wedi'u bodloni ac fe fyddai'r atebolrwydd yn £0 beth bynnag. Serch hynny, byddai rhoi rhyddhad ASC ar gyfer y llety i fyfyrwyr gyfystyr â chymorth gwladwriaethol ac, felly, fyddai rhyddhad ddim yn cael ei roi.

Gan hynny, mae'r atebolrwydd yn parhau'n £255,000 (h.y. atebolrwydd llety i fyfyrwyr).

I gael rhagor o wybodaeth am Ryddhad Elusennol, darllenwch **Ganllaw Ardoll Seilwaith Cymunedol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (Mehafin 2014)**.